



HEDDWCH

Rhifyn 75 > Mis Awst 2020 > CND Cymru > Yr Ymgynghraeth dros Ddiarfog Niwclear



GIG NID TRIDENT

Mae'n bryd i ni ailsefydlu ein blaenoriaethau

Gallai'r genhedlaeth nesaf o arfau niwclear gostio rhyw £205 biliwn.

Gellid gwario'r arian hwnnw ar gefnogi'n Gwasanaeth Iechyd

Gwladol a'n gofawyr, meddygon a nyrsys. Gallai ein helpu i ddelio

ag argyfwng yr hinsawdd neu anghydraddoldeb. Cydweithrediad
rhyngwladol sydd ei angen arnom, nid arfau dinistr torfol.

GADEWCH I NI DDEWIS BYWYD, NID ANGAU.

DIANC RHAG DYSTOPIA

Sawl marchog sydd eu hangen i greu apocalyps? Cyrhaeddodd y Coronafirws blaned a oedd eisoes yn dioddef o argyfwng yr hinsawdd, sychdwr a llifogydd, newyn, tloedi, anghydraddoldeb, hiliaeth a rhyfel. Mae Covid-19 ymhell o fod ar ben; yn ei sgil, ymddengys chwalfa economaidd fydd-eang yn anochel. Mae twf llywodraethau unbenaethol, poblyddol a'u dirmyg at gyfraith ryngwladol a diplomyddiaeth yn dwysáu ein problemau lu.

Ond fe ddaeth llygedyn o haul ar fryn. Dangoswyd bod cymdeithas yn bodoli, er gwaethaf geiriau Margaret Thatcher. Bu'r cloi mawr yn galed ac yn dorcalonnu i lawer, ond gorfododd bobl i bwysu a mesur, i ymfhyrdu ym myd natur, i sylweddoli gwerth cydweithredu a chydsefyll.

Nid dyma'r amser i ganolbwyntio ar ras arfau newydd. Rhaid i'r byd ar ôl Covid geisio dyfodol cynaliadwy i'r blaned a'i phobloedd. Mae ceisio olynydd i Trident yn wastraff arswydus ar gyllid cyhoeddus; mae'n dwyn arian y mae ei angen i adeiladu cymdeithas well. Cyllidwch y GIG nid y rhyfelgwn.

Mae 'ataliaeth' niwclear yn perthyn i'r ganrif ddiwethaf – ni all taflegrau ein hamddiffyn rhag ymosodiadau seibr, gweithredoedd terfysgol unigol

neu heintiau pandemig. Mae rhai o'r prif gadfridogion yn cytuno'n dawel, ond mae 'teganau i'r hogiau' yn gwneud i wleidyddion deimlo'n fawr. Mae'n eironig bod llyfr newydd gan y hebog neo-con John Bolton yn datgelu nad oedd Donald Trump, pengadlywydd lluoedd yr UD, hyd yn oed yn gwybod bod gan y DU atalydd niwclear. Ie, dyna pa mor bwysig yw hunan-falchder Prydain yn nhrefn pethau.

Sefydlwyd y GIG dair blynedd wedi i fom Hiroshima ddwyn yr Ail Ryfel Byd i ben. Erys yn gyflawniad ysbrydoledig, yn fuddugoliaeth yn erbyn adfyd. Mewn cyferbyniad, methiant llwyr yw parhad arfau niwclear 75 mlynedd wedi Hiroshima, etifeddiaeth o anobaith.

Philip Steele

Ganed **Philip Jones**

Griffiths yn Rhuddlan, Sir Ddinbych ym 1936. Aeth yn heddychwyr radicalaidd ac yn wrthwynebydd cydwybodol. Yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Oer, enillodd Griffiths fri rhyngwladol am ei luniau o oymdeithiau CND cynnar, am ei gofnod deifiol o ryfel fel y gwelwyd yn ei gyfrol ddylanwadol *Vietnam, Inc.* (1971), a hefyd am ei ffotograffau teimladwy o fywyd beunyddiol yn Lerpwl a De Cymru. Bu farw yn 2008. Cedwir ei archifau gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

'BAN THE BOMB'

Mae'r rhifyn hwn yn nodi 75 mlynedd y bomiau atomig cyntaf. Fe'u gollyngwyd ar Japan pan oedd yr Ail Ryfel Byd eisoes yn dirwyn i ben, a'u diben ychwanegol oedd fel rhybudd i'n cynghreiriad, yr Undeb Sofietaidd, bod brwydr newydd am bŵer byd-eang ar droed. Daethpwyd i alw hyn yn Rhyfel Oer.

Lansiwyd yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear (CND) yn Llundain ym 1958. Daeth ei arwyddlun, cyfuniad o'r llythrennau semaffor N a D, yn adnabyddus ledled y byd fel symbol o heddwch.



Taith cerdded Aldermaston 1960, gan Philip Jones Griffiths.

DAU GAM YMMLAEN, DAU GAM YN ÔL

Brian Jones *yn adolygu datblygiadau diweddaraf y cytundebau.*

Yn gyntaf, y newyddion da: er gwaetha'r problemau a achoswyd gan Covid-19 ledled y byd, mae pum gwlad arall, Belize, Botswana, Fiji, Lesotho a Namibia, wedi cadarnhau'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear, i ddod â'r cyfanswm i 40.

Mae Dr Carl Clowes wedi sgrifennu erthygl wych ar gadarnhad Lesotho, y gellwch ei darllen yma: www.nation.cymru/opinion/lesotho-has-led-the-way-on-nuclear-weapons-but-can-wales-follow
Dim ond 10 gwlad arall sydd eu hangen i gadarnhau'r cytundeb cyn iddo ddod i rym, yn nes ymlaen eleni, gobeithio, neu'n gynnar yn 2021. Dylai Iwerddon gadarnhau'r cytundeb yn fuan, gan fod dwy haen y llywodraeth wedi pasio'r ddeddfwriaeth gadarnhau. Mae'n bosib y bydd nifer o wledydd yn llofnodi neu gadarnhau'r cytundeb ym mis Awst, 75 mlynedd ar ôl bomio Hiroshima a Nagasaki; prin y gellid dychmygu ffordd well i wlad nodi'r 75 mlwyddiant hwn na thrwy gefnogi cytundeb i wahardd pob arf niwclear ym mhobman.

Taflegrau'r UD yn yr Almaen

Darn arall o newyddion da yw bod y ddadl ynglŷn â chaniatáu arfau niwclear yr UD ar ei thirioegaeth wedi ailgychwyn yn yr Almaen. Mae'r Almaen yn un o bum gwlad Ewropeaidd sy'n lleoliad i arfau niwclear (y lleill yw Gwlad Belg, yr Eidal, yr Iseldiroedd a Thwrci) ac mae ganddi fudiad gwrth-niwclear cryf iawn. Er mai dim ond rhyw 20 o arfau niwclear yr UD a leolir yn yr Almaen,

byddai oblygiadau gwleidyddol gwrthod parhau i'w caniatáu yn aruthrol, a byddai'n sicr o ysgogi'r un ddadl yng Ngwlad Belg, yr Eidal, a'r Iseldiroedd ... er y cafodd Gwlad Pwyl ei chrybwyll fel lleoliad posib ar gyfer arfau niwclear yr UD.

Cau'r 'Wybrennau Agored'

Fodd bynnag, y newyddion drwg yw bod yr Arlywydd Trump yn dal i ddileu cytundebau rhyngwladol. Ar ôl tynnu allan o'r cytundeb Lluedd Niwclear Canolradd, sy'n gwahardd taflegrau ag ystod o rhwng 500 a 5,500 km, dyma Trump yn cyhoeddi y bydd UDA yn tynnu allan o'r Cytundeb Wybrennau Agored yn sgil etholiad arlywyddol mis Tachwedd. Bwriad y cytundeb hwn oedd gwella cyd-ddealltwriaeth a hyder rhwng Rwsia a holl wledydd NATO, trwy ganiatáu i "awyrennau ysbio" hedfan dros wledydd ei gilydd, i gasglu gwybodaeth. Wybrennau Agored yw un o'r ymdrechion rhyngwladol mwyaf eang hyd yn hyn, yn hyrwyddo didwylledd a thryloywder parthed lluedd a gweithgareddau milwrol ... ond dyw hynny ddim at ddant yr Arlywydd Trump.

Profion niwclear yn ôl ar yr agenda

Fe na bai hynny'n ddigon, adroddir bod y Pentagon ar y 15fed o Fai wedi trafod ailgychwyn profion arfau niwclear. Er nad yw UDA wedi cadarnhau'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr, a gefnogir gan 184 o wledydd, ni chynhaliodd unrhyw brofion arfau niwclear ers 1992. Ar wahân i'r difrod amgylcheddol a achosid, byddai'n rhwystr enfawr i'r ymdrechion

rhyngwladol i reoli arfau niwclear. Y gobaith yw y llwydda pobl hirben i argyhoeddi Trump nad oes unrhyw beth i'w ennill, a llawer iawn i'w golli, pe bai Americana'n ailgychwyn profion arfau niwclear.



Ymgrychwy'r o Sweden yn galw am wahardd arfau niwclear ledled y byd

GYDA FFRINDIAU FEL Y RHAIN

Mae storm geo-wleidyddol yn torri. Detholiad o ddarnau yw'r rhain o bapur trafod hwy gan Linda Rogers.

Anogaeth i ryfel niwclear

Mae gweithred Donald Trump wrth dynnu yn ôl o gytundeb niwclear Iran 2015, y Cydgynllun Gweithredu Cynhwysfawr (JCPOA), yn bryfoclyd ac yn hynod beryglus. Mae bellach yn gosod sancsiynau ar y gwledydd hynny a gefnogodd Iran yn ffurfiol i beidio â datblygu arfau niwclear.

Bydd pob endid tramor sy'n rhan o'r fargen ag Iran, gan gynnwys Rwsia a Chorfforaeth Niwclear Genedlaethol China, yn agored i'w cosbi os parhant i gydweithredu ag Iran. O dan y JCPOA, roedd adweithydd ymchwil Arak yn cael ei drawsnewid fel na allai gynhyrchu mwy nag ychydig bach iawn o blwtoniwm gradd arfau, gan gau llwybr posib tuag at arfau niwclear. Câl Iran fewnforio tanwydd wraniwm wedi'i gyfoethogi i bron 20 y cant ar gyfer Adweithydd Ymchwil Tehran (TRR), a olygai nad oedd gan y wlad reswm i gyfoethogi wraniwm i'r lefel honno.

Roedd y fargen hefyd yn caniatáu allforio tanwydd hesb a gwastraff adweithydd ymchwil Iran, gan ddileu unrhyw bosibillrwydd y câr tanwydd hwn ei ailbroseu neu ei addasu at ddefnydd mewn arfau yn y dyfodol.

Mae'r ffaith bod y tri hepgoriad hyn ar gyfer cydweithredu niwclear sifil â Tehran wedi dod i ben yn bryfociad cryf i Iran fwrw ymlaen a datblygu deunydd gradd arfau. Mae hyn, yn ei dro, yn anogaeth uniongyrchol i Israel ymosod ar Iran; y cyfoethogi i bron 20 y cant ar gyfer y TRR oedd thema araith "llinell goch" Prif Weinidog Israel, Benjamin Netanyahu, yn y Cenhedloedd Unedig yn 2012, a ragarwyddai'r bygythiad o gyrch milwrol gan Israel yn erbyn Iran.

Mae angen i ni gefnogi'r fargen niwclear gydag Iran a dileu sancsiynau ar Iran.

America yn rhoi wraniwm yn gyntaf

Mae'r UD bellach wedi pwyso ar y DU a gwledydd eraill ddod â buddsoddi gan China i ben. Byddai hynny wedi golygu tranc y diwydiant niwclear ym Mhrydain. Fodd bynnag, mae gan yr Unol Daleithiau bolisi ynni newydd a'i nod yw "adfer gallu sofran America i reoli ei defnydd o'r elfen fwyaf pwerus sy'n bodoli'n naturiol ar y blaned – wraniwm – at ddibenion heddychlon a dibenion amddiffynno" (*Restoring America's Competitive Nuclear Advantage; A Strategy to Assure US National Security Yr Adran Ynni* 2020).

Cyhoeddodd Adran Ynni'r UD gynllun i ailgychwyn cynhyrchu wraniwm gradd-arfau niwclear, sydd wedi'i gyfoethogi'n ddirfawr, am y tro cyntaf er 1992, "ar gyfer adweithyddion niwclear y Llynges yn yr 2050au."

O dan y pennawd Sylfaen Gweithlu a Chyflenwyr, eglurir bod angen rhaglen niwclear sifil ar UDA oherwydd "mae persbectif amddiffyn yn unig yn methu darparu arbedion maint i ysgogi galw digonol i amddiffyn buddiannau diogelwch gwladol yr UD."

Ac felly mae ei deall hi. Does gan y prif gymhellant dros ddefnyddio pŵer niwclear ddim i'w wneud â chynhyrchu ynni at ddibenion sifil, technolegau honedig "wyrdd" neu unrhyw ddadleuon "gwyrddolchi" o'r fath.

Y drwg technegol yn y caws mawreddog hwn yw bod diwydiant niwclear yr UD yn brwydro i fodoli ac â mawr angen dod o hyd i brynwyr. Pwy fydd am brynu? Nyni, mae'n bur debyg.

Siawns bod ein perthynas arbennig ar fin mynd yn un arbennig iawn.


GRŴP HEDDWCH

SIR BENFRO

*yn nodi Dydd
Hiroshima 2019
trwy wneud
llusernau
heddwch a'u
lansio ar yr afon.
Mae gwreiddiau'r
seremoni hon yn
Hiroshima ei hun, lle gollyngir llusernau
papur bob blwyddyn ar ddyfroedd Afon
Motoyasu, islaw Cromen y Bom Atomig.*



David Watson/Grŵp Heddwch Sir Benfro



BYTH ETO

*Roedd dinistr llwyr dinasoedd Hiroshima a
Nagasaki yn Japan gan awyrennau'r UD ym 1945
yn foment ddiffiniol yn hanes y ddyfnolryw.
Mae David Wood yn rhestru'r ffeithiau erchyll.*

• Ffrwydrodd yr Unol Daleithau ddwy ddyfais niwclear dros Hiroshima a Nagasaki ar y 6 Awst a'r 9 Awst 1945.

• Yn Hiroshima ei hun, lladdwyd rhyw 20,000 o filwyr yn y fan a'r lle a rhwng 70,000 a 126,000 o sifiliaid, o boblogaeth o ryw 345,000 – rhyw 30 y cant o'r boblogaeth. Cafodd rhyw 70,000 eu hanafu.

• Dinistriwyd rhyw 69 y cant o adeiladau Hiroshima. I wneud pethau'n waeth byth, lladdwyd neu anafwyd mwy na 90 y cant o feddygon a 93 y cant o nyrsys Hiroshima, a chafodd llwyr o ysbytai eu dinistrio neu eu difrodi.

• Cynhyrchwyd dau fath o fom atomig: bom wraniwm math-gwn ar Hiroshima a bom plwtoniwm mewnffrwydrod ar Nagasaki.

• Gollyngwyd bom Hiroshima o uchder o 9,470 metr a chymerodd 44.4 eiliad i syrthio i uchder ffrwydro o 580 metr. Rhyddhaodd ynni cyfwerth ag 16 kiloton o TNT (67TJ) gyda dim ond 1.7 y cant o'i ddeunydd yn ymholli.

• Roedd radiws y dinistr llwyr yn rhyw 1.6km², gyda thanau'n llosgi'n wyllt ar draws 11km².

• Pan sgubodd gwyddonwyr yr UD yr ardal yn Hiroshima â mesurydd Geiger fis yn ddiweddarach, prin oedd yr ymbelydredd mesuradwy. Roedd hyn oherwydd y ffaith y cafodd y bomiau eu ffrwydro tua 580 metr uwch lefel y môr.

• Cludwyd y rhan fwyaf o'r gwastraff ymbelydrol ymaith yn y cwmwl madarch wedi'r ffrwydrad, a lledaenodd alldafliad marwol ar ffurf "lludw angau" a "glaw du" dros arwynebedd eang.

• Cynyddodd effeithiau tymor-hir yr ymbelydredd risg cancr ymhlith goroeswyr. Y mwyaf marwol oedd lewcemia a amlygodd ei hun rhwng pedair a chwe blynedd yn ddiweddarach.

• Datblygodd Prydain y bom ar y cyd ag UDA yn gwbl gyfrinachol o dan Gytundeb Quebec 1943. Roedd yn gyfrannog yn y bomio, gan gytuno'n ffurfiol i'r weithred yn Washington DC, ar y 4ydd o Orffennaf 1945.

HIROSHIMA: 75 MLYNEDD WEDYN

Bethan Siân yn cyfweld ag Is-Gadeirydd CND Cymru, Dr John Cox.

BS: Beth ydych chi'n ei gofio am yr UD yn gollwng bomiau atomig ar Hiroshima and Nagasaki?

JC: Ychydig iawn – heblaw'r sôn bod y rhyfel wedi dod i ben o'i herwydd. Chofia'i ddim clywed am ymbelydredd ac agweddau erchyll eraill am ddwy flynedd arall, a phryd hynny nid o unrhyw beth a ddywedodd llywodraeth Prydain ond am i oroeswyr o Japan ddod ag arddangosfeydd o waith celf yma yn seiliedig ar eu profiadau.

Deg oed oeddwn i. Ni chlywsom am ymbelydredd ac effeithiau genetig tan ddwy neu dair blynedd wedi hynny. Dyna pryd y dës i'n ymwybodol o ymgyrchoedd ac, ym 1952 yn yr ysgol, casglais lofnodion yn erbyn y bom atomig. Ond nid tan flynyddoedd yn ddiweddarach, pan ymddangosai ein bod ni ym Mhrydain o bosib o dan fygythiad, y magodd yr ymgyrch nerth. Dwi ddim yn credu mai sioc ohiriedig ar ôl lladd cymaint o filoedd o Japaneaid oedd hyn – roedd a wnelo'n fwy â'r ffaith ein bod bellach yn ymddangos mewn perygl o ryfel rhwng yr Undeb Sofietaidd ac America. Dechreuodd y mudiad mawr yn erbyn arfau atomig pan brofodd yr Undeb Sofietaidd fom atomig – tan 1949, ymddangosai nad oeddem mewn perygl oherwydd bod gan America fonopoli.

BS: A newidiodd eich canfyddiad pan ddechreuoch hyfforddi fel gwyddonydd?

JC: Na, dwi ddim yn credu hynny. Peth dyngarol oedd yr ysgogiad.

Gwnaeth goroeswyr Japan arddangosfa mewn bambŵ a aeth ar daith o amgylch y byd a datgelu bod plant y rhai a gafodd eu hymbelydru yn etifeddu problemau genetig. Cafodd hynny effaith fawr iawn, iawn arna'i a phobl yn gyffredinol. Dwi ddim yn credu bod angen i mi fod yn wyddonydd i ddeall yr oblygiadau.

BS: Sut newidiodd ymgyrchu Hiroshima yn yr 80au o'i gymharu ag ymgyrchu yn y 50au a'r 60au?

JC: Yn y 50au a'r 60au roedd dau llyn; ac felly hefyd yn y 70au a'r 80au, ond newidiodd cryfder cymharol y ddwy gainc. Rwy'n credu yn y 50au a'r 60au bod yr ymgyrch yn achos moesol mawr â'r agwedd bod America a'r Undeb Sofietaidd cynddrwg â'i gilydd. Ond erbyn yr 1980au, roedd yn amlwg mai America (a Phrydain, fel ei phartner iau) oedd yn arwain y ffordd yn y maes, ac ymateb y mudiad heddwch oedd bod yn fwy yn erbyn cynlluniau America a Phrydain i ddatblygu arfau newydd. Beirniadwyd yr Undeb Sofietaidd am ddilyn yn ôl traed America a Phrydain, ond nid oeddynt bellach yn cael eu hystyried cynddrwg â'i gilydd.




Ground Zero, Hiroshima, 6 Awst 1945

◀ Mae hynny hyd yn oed yn fwy eglur heddiw, gyda gwariant milwrol America yn fwy na chyfanswm yr 20 gwlad agosaf; mae'n amlwg bod yna un arweinydd enfawr ac mae'n rhaid i ni gydnabod hynny yn ein hymgyrchu. Nid yw'r ysgogiad i'r ras arfau wedi deillio o fygythiad canfyddedig – yn y bôn, mae'n cael ei yrru'n fewnol, fel y rhybuddiodd Eisenhower. Dyma'r agwedd fasnachol – os cynhyrchwch bethau cymdeithasol ddefnyddiol, fel bwyd, tai, yna yn y man caiff y galw ei ddiwallu ac ni all eich busnes dyfu. Ond mae mwy o arfau yn creu galw am fwy o arfau. Dyna pam yr ehangodd y diwydiant arfau (fel y diwydiant cyffuriau anghyfreithlon) o'i gymharu â'r economi gymdeithasol ddefnyddiol i fod yn llawer mwy dylanwadol o'i gymharu â 1945. Dyna'r newid mwyaf i mi sylwi arno yn ystod fy oes. Pan rybuddiodd yr Arlywydd Eisenhower am y perygl y câr cymhleth milwrol-ddiwydiannol ormod o ddylanwad, dim ond dwy dalaith yn yr UD oedd yn ddibynnol iawn ar arfau. Ers hynny, mae gwaith cynhyrchu arfau wedi cael ei ddosbarthu i bob talaith yn yr UD ac mae'r diwydiant wrthi'n lloio seneddwy'r a chynrychiolwyr beunydd i gefnogi pa beth bynnag newydd y meddyliant amdano. Dyna beth oedd byrdwn rhybudd Eisenhower; gall pŵer y cymhleth milwrol-ddiwydiannol lethu democratiaeth – fel sydd, yn y bôn, wedi digwydd yn yr Unol Daleithiau.

BS: Pa mor bwysig yn eich barn chi yw cadw ymgyrch Hiroshima yn fyw yn yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni? Cyhoeddodd yr Arlywydd Trump yn ddiweddar fod America'n datblygu taflegryn 'super-duper', yn ei eiriau ef, 17-gwaith cyflymach na'r hyn sydd gan Rwsia a China nawr.

JC: Pa wahaniaeth os yw peth yn eich taro ar gyflymdra 17 gwaith yn fwy na'r taflegryn 'super-duper' diwethaf. Allwn ni ddim arswydo 17 gwaith yn fwy. Mae'n anodd darogan llanw a



Nagasaki, 9 Awst 1945. Lladdodd y bom 35,000 o bobl yn y fan a'r lle

thrai mudiadau protest. Fe welwch chi hynny yn yr ychydig wythnosau diwethaf gyda'r mudiad Bywydau Duon – mae'n broblem a fu o gwmpas ers 200 i 300 neu fwy o flynyddoedd. Felly, dwi ddim yn credu, pan fuoch yn ymgyrchu ers 50 mlynedd yn erbyn arfau niwclear, y bydd yr ymgyrchu rywsut neu'i gilydd yn peidio am ei fod yn hen hanes. Mae rhai problemau'n 300 i 400 mlynedd oed ac mor fyw ag erioed.

BS: A oes gan Hiroshima a Nagasaki y gallu i arswydo o hyd?

JC: Cofiwch fod y bomiau atomig a ollyngwyd ar Japan 100 i 1000 gwaith yn wannach na bomiau thermo-niwclear heddiw. Roeddent yn ddeg i ugain kiloton o gryfder ac mae gennym bellach fomiau ugain megaton – mil gwaith yn fwy o bŵer ffrwydrol. Felly, mae'r sefyllfa mor erchyll nes ei bod hi'n anodd cyfleu pa mor ddrwg yw hi. Fe gewch chi pobl yn ffroni pan fo rhywun yn pisho y tu allan i'r Senedd, lawer mwy nag sy'n poeni am blydi bomiau niwclear! Rhyfedd o fyd, yn wir.

BS: Pam mai felly y mae hi?

JC: Rwy'n credu eich bod yn cynefino. Cymaint o arswyd, ac arswydo ffug, am bethau dibwys. Neu gymharol ddbwys na allwch eu credu go iawn – mae bod ag arfau niwclear y tu hwnt i'n hamgyffred. Iawn, dwi'n cyfaddef fy hun, gallwn siarad amdano yn yr un anadl, bron. Ond allwch chi ddim dychmygu pa mor arswydus fyddai rhyfel niwclear.

ENNYN SYLW'R WASG

Sut y gall ymgyrchwyr fanteisio ar allfeydd newyddion? **Marc Jones** sy'n cynnig awgrym neu ddau.

heddweithredu:

- Dau gwestiwn sydd gan **ohebydd newyddion** yn y bon: Beth ddigwyddodd? Sut ydych chi'n teimlo? Mae'n *adweithiol* i raddau helaeth. Mae **newyddiaduraeth ymchwiliol** yn wahanol - mae'n *rhagweithiol*, yn chwilota am yr hyn sy'n digwydd a'i ddatgelu i gynulleidfa ehangach. Efallai y bydd yn dibynnu ar chwythwr chwiban, ar bwytho darnau gwahanol o wybodaeth ynghyd, ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu ddim ond gwybodaeth arbenigol dda.
- Tanlinellwyd y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o newyddiaduraeth gan dranc papurau newydd lleol yn ystod y degawdau diwethaf a defnydd cwmnïau mawr, cyngorau a sefydliadau gwirfoddol o gysylltiadau cyhoeddus i wthio eu safbwynt. Gair am hyn yw **troelliaduraeth (churnalism)** – newyddiadurwyr wrthi'n gwneud dim mwy na choddi cynnwys datganiadau i'r wasg. Mae'n gwanhau newyddiaduraeth – ond yn agor cyfleoedd i ymgyrchwyr.
- Sail **straeon newyddion** yw 5 'P': pwy, pa beth, pryd, pa le, pam? Wrth lunio datganiad i'r wasg, anfonwch y stori fel yr hoffech iddi ymddangos. Dylai 'rhagair' 20-gair fod yn ddigon i gynnwys y 5 elfen allweddol hyn. Dyna lle byddwch yn 'gwerthu'r stori.

- Bachwch sylw! Ystyriwch beth fydd y **pennawd** – gall trosiad trawiadol neu lun ddrychafu stori i'r dudalen-flaen. Mae datganiad i'r wasg yn ymateb syml i ddigwyddiad fel arfer. Dywedwch wrth bobl beth ddigwyddodd a beth yw'ch barn chi am hynny. Atodwch lun, manylion cyswllt, ac unrhyw nodiadau, ystadegau neu lincs i ategu'ch stori.

- **Diddordeb dynol a lleol** sy'n gyrru straeon, nid data sych. Cyflwynwch rifau mewn termau hawdd eu deall. Dylech osgoi jargon ac ystadegau diflas, oni bai eich bod yn anelu at gynulleidfa arbenigol.

- **Ddylwn i anfon allan i'r holl gyfryngau?** Fel arfer, dylech, ond weithiau ddim. Cofiwch bod 'journos' yn dwli ar ecsgliwsif. Ystyriwch pa gynulleidfa rydych yn ceisio'i chyrraedd

- **Beth os daw'r cyfryngau ar eich gofyn chi?** *Sgrifennwch* ddyfyniad a'i anfon atynt bob tro. Peidiwch â rheddu ar y ffôn – gallech chi gamddweud, gallen

nhw eich camddyfynu.

- Mewn cyfweiliad teledu, peidiwch â chael eich bwlio ... ar gyfer eitem newyddion, dim ond rhyw 20 eiliad fydd ei angen, debyg iawn, felly rhowch eich neges yn yr 20 eiliad yna. Os baglwch dros air dechreuwch eto (oni bai bod yr eitem yn fyw!)

- Wrth i bapurau lleol fynd i'r wal, symudodd newyddion a barn yn gynyddol **ar-lein**. Ewch yn rhan o hynny â'ch gwefan neu'ch blog eich hun. Mae'n archif ddefnyddiol o'ch ymgyrch ac yn gronfa ddata o wybodaeth.

- Mae **cyfryngau cymdeithasol** yn cynnig mynediad buan, uniongyrchol, byd-eang a denu sylw i'ch gwefan. Maent yn denu grwpiau oed gwahanol – Gweplyfr a Trydar i'r hŷn, a Tik Tok, Snapchat, Instagram, ayyb i'r gweddill.

- Ond mae newyddiadurwyr yn dal yn bwysig. Meithrinwch gysylltiadau a'u **diweddarau**. Fe ddefnyddiant fwy o'ch stwff a dod atoch yn amlach fel ymgyrchydd cyfeillgar, dyfynadwy.



Sgrym gan y Wasg ar safle niwcLEAR Wylfa, pan alwodd cyn-Brif Weinidog Japan, Naoto Kan ar Hitachi i dynnu allan.

AWYRENNAU RHYFEL DROS LANBEDR

Dim gorfodi canolfannau milwrol ar ardaloedd cefn-gwlad tlawd meddai Mabon ap Gwynfor.

Mae datblygu Llanbedr fel maes awyr i'w ddefnyddio at ddibenion militaraidd unwaith eto yn ôl yn y penawdau. Nid adar angau ydy'r cynnig y tro hwn, ond yn hytrach trosglwyddo peth o waith Y Fali, Ynys Môn, i Lanbedr a galluogi'r Awyrlu Brenhinol i hyfforddi peilotiaid at ddibenion rhyfelgar yn bennaf. Mewn gwirionedd mae hyn yn adlewyrchu methiant llwyr y tenantiaid presennol i farchnata'r lle a sicrhau defnydd sifil o'r maes awyr a fyddai'n cyfiawnhau eu cais i gael parth traffig awyr, ac felly datblygu eu defnydd ymhellach.

Ond, yn fwy na methiant un cwmni, mae hwn eto fyth yn dangos y methiant llwyr yng nghynlluniau economaidd llywodraethau i fuddsoddi yn ein cymunedau. Mae hyn yn ei dro yn creu gwagle sy'n galluogi militariaeth i gamu i fewn a chyfiawnhau ei bodolaeth ar y sail ei bod yn creu swyddi. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r methiant sylfaenol yma. Ddiwedd Mis Mehefin, clywsom Brif Weinidog y DU yn ymffrostio y bydd yn buddsoddi biliynau mewn isadeiledd, heb i geiniog o'r pres hwnnw ddod i Gymru. Mae'r canoli yma yn y dinasoedd mawrion (gan y ddwy Lywodraeth), gan amddifadu ein cymunedau

mwyr gwledig, yn arwain at anobaith; a'r anobaith hwnnw yn ei dro yn arwain at groesawu unrhyw fuddsoddiad, o ble bynnag y daw.

Mae hyn yn hen batrwm bellach, wedi ei fireinio gan Lywodraeth San Steffan, gan wybod yn iawn fod cymunedau difreintiedig, diarffordd, a thlawd am groesawu pa bynnag friwsion a gynigir iddynt, yn amlach na pheidio 'diwydiant' na fyddai'n cael eu groesawu mewn cymunedau



mwyr poblog ac yn agosach at gartref y Llywodraeth. Rhaid newid y drefn. Y cam cyntaf ydy derbyn nad oes yna atebion sydyn i'r trafferthion dybryd yma y mae Llywodraeth gwladwriaeth bwdr wedi ei waddoli i ni. O dderbyn hynny, rhaid mynd ati a datblygu cynlluniau hir-dymor, sy'n golygu dechrau trwy rymuso'r gymuned. Ni ddaw'r atebion

o ddesg swyddogion, ond yn hytrach o fynwes y gymuned. Beth ydy anghenion y gymuned? Beth ydy ei chryfderau? Pa adnoddau sydd ganddi? O adnabod y pethau yma mae posib cyfeirio'r buddsoddiad i'r gymuned ac iddi hi lunio ei llwybr ei hun.

O wneud hyn gallwn wedyn sicrhau nad ydy'r amgylchiadau economaidd yn bodoli sydd yn galluogi i sefydliadau milwrol wthio eu ffordd i fewn fel cwcw i'r nyth.

Ni allwn golli rhagor o'n cymunedau i filitariaeth.

O GYMRU I YEMEN

Difrodwyd Yemen gan ryfel a newyn. Yng Ngorffennaf ailddechreuodd y DU werthu arfau i'r prif ymosodwr, Saudi Arabia, er colli achos llys yn ei herbyn gan yr Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau ar sail ddyngarol yn 2019. Hyfforddwyd 30 o beilotiaid Saudi i hedfan jetiau Hawk yn RAF Y Fali y llynedd. Gwerthodd eu gwneuthurwyr, BAE Systems, werth £15bn o arfau i Saudi Arabia yn y 5 mlynedd diwethaf. Cafodd milwyr Kuwaiti o'r gynghrair eu hyfforddi hefyd yn Ysgol Frwydro'r Troedfilwyr, Aberhonddu.

AI DYMA'R DDIWEDDGAN NIWCLEAR?

Mae cyflwr y diwydiant niwclear, sy'n clafychu ledled y byd, yn fwyfwy enbydus. A all oroesi argyfwng ariannol, y rhwyg â China a thwf ynni adnewyddadwy? Dr Carl Clowes sy'n cloriannu.

Wedi i Hitachi 'sylweddoli' nad oedd Wylfa Newydd yn hyfyr yn ariannol, dyma nhw'n atal ei ddiddordeb ynddo fo yn Ionawr 2019. Er hynny, aeth cais gan Horizon Niwclear ymlaen i'r Arolygiaeth Gynllunio am ganiatâd ar gyfer cwblhau'r ddatblygiad – â'r nod o werthu'r pecyn ymlaen pe na bai Hitachi yn dod yn ôl at y 'bwrdd'. Er y bu trafodaethau am ffordd arall o gyllido datblygiadau niwclear [Regulated Asset Base – RAB] i ddenu cwmnïau fel Hitachi yn ôl i'r maes, byddai hynny yn golygu taliadau ychwanegol rhag blaen gan y cyhoedd – a oedd, gellid tybio, yn annhebygol o gael cefnogaeth gan lywodraeth San Steffan yn yr hinsawdd presennol.

Oedi a mwy o oedi

Gohiriwyd unrhyw benderfyniad ar gais Horizon yn Hydref 2019 pan ofynodd y Gweinidog am fwy o fanylion ac, yn arbennig, effeithiau amgylcheddol yr orsaf. Ddiwedd Mawrth eleni, penderfynodd y Gweinidog nad oedd yn fodlon ar yr atebion diweddaraf a chyhoeddodd ohiriad arall ar y penderfyniad hyd at ddiwedd Medi 2020. Mae PAWB wedi gofyn am wrthod cais cynllunio Horizon yn gyfan gwbl. Amser a ddengys, ond un sgil-effaith yr oedi yw'r ffaith fod prisiau'r technolegau adnewyddadwy, fel gwynt a solar, yn brysus tansilio unrhyw achos gwrthrychol dros fuddsoddi mewn ynni niwclear newydd. Bellach, ceir prisiau mor isel â £40/MWh ar gyfer ynni gwynt y môr. Sgil-effaith arall, nid amhwysig wrth oedi codi Wylfa Newydd, yw hepgor gweld miloedd o weithwyr o'r tu allan yn ymsefydlu yn yr ardal ar adeg bryderus Covid-19.

Yn Hydref 2018, addefodd Rolls Royce wrth bwyllgor yn San Steffan y potensial o groesffrwythloni rhwng sgiliau ynni niwclear sifil a'r rhai sydd eu hangen i ddibenion milwrol. Dyna, mewn gwirionedd, sy'n gyrru'r agenda wleidyddol y tu ôl i ynni niwclear yn fwy na'r un rheswm arall.

CADNO'n dweud na i Rolls Royce

Mae Rolls Royce yn arwain y consortiwm sydd â'u bryd ar adeiladu'r Adweithydd Niwclear Modiwlwr Bychan [SMNR] arbrofol yn Nhrawsfynydd. Mae'r peryglon o luosogi adweithyddion, a chreu mwy o wastraff a thargedau ar gyfer terfysgwyr, yn amlwg. Mae CADNO, y mudiad sy'n ymgychu yn lleol yn erbyn unrhyw atomfa newydd ar y safle, wedi datgan eu hanfodlonrwydd o fod yn 'guinea pigs' ar gyfer Rolls Royce. "Dan ni angen", medde CADNO, "cyflogaeth ddiogel, gynaliadwy rŵan – nid mewn 10 mlynedd – gan fanteisio ar adnoddau cyfoethog yr ardal i greu ynni lleol a chynhenid heb lygredd." Amcan-bris ynni Rolls Royce ar gyfer yr SMNR yw £60/MWh – 50 y cant yn fwy nag ynni gwynt y môr. Mae CADNO yn wynebu dadleuon gan wleidyddion lleol a chenedlaethol

am yr angen am swyddi hollbwysig i'r ardal. Yn ôl y ffigyrau diweddaraf, ceir bron ddwywaith gymaint o swyddi yn y diwydiannau amgen yn y DU – 115,000 o'i gymharu â 65,000 mewn ynni niwclear. Mae'n hen bryd i'n gwleidyddion ddefro i'r potensial rhyfeddol am swyddi ynni amgen ac, yn arbennig, mewn ardaloedd gwledig fel Eryri. Rhatach, glanach a saffach!



HEN LAID HINKLEY UNWAITH ETO

Llaid – a llwch nawr – o Hinkley ...

Brian Jones sy'n cynnig y diweddaraf am gymydog trafferthus Caerdydd dros y dŵr.

Digwyddodd y cyfan ar ddiwrnod gwyntog o Fehefin: yn gyntaf, ar safle adeiladu Hinkley Point C, dioddefodd seilo 5,000 tonnall, 35-metr o uchder yn y ffatri lle cymysgir concrid “ddifrod strwythurol”, gan ryddhau cwmwl enfawr o lwch. Doedd y cwmwl llwch “ddim yn wenwynig nac yn niweidiol i iechyd”, yn ôl llefarydd EdF. Yn rhyfedd, ar ddiwrnod gwyntog, dywedodd EdF hefyd y “cwmpodd y llwch ar ein safle ac ni ledodd i'r gymuned”. Mae'n amlwg bod llwch, fel ymbelydredd, yn hynod ofalus pan ddaw hi at ffiniau wedi'u tynnu ar fap!

Pa fath o ymgynghoriad?

Yn ddiweddarach yr un diwrnod, rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ymateb i'w hymgynghoriad “cyn-ymgeisio” ar gynlluniau EdF i garthu mwy o waddod o Fae Bridgewater (lle mae pibellau all-lif Hinkley Point A a B wedi gollwng gronynnau ymbelydrol ers 50 mlynedd a mwy) ac yna dymio'r gwaddod ger Bae Caerdydd. Ffocws cyfyng iawn oedd i'r ymgynghoriad, sef cynllun samplu EdF. Awgrymai welliannau bach i gynlluniau EdF, ond barnai fod llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad “y tu allan i gwmpas” yr ymgynghoriad. Mae cyflwyniad CND Cymru, a chyflwyniad yr Athro Keith Barnham, ar ein gwefan: <https://www.cndcymru.org/hinkley-mud-campaign>

Ar 10 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd y Prif Weinidog Mark Drakeford ‘bwyllgor o arbenigwyr’ i ystyried oblygiadau Hinkley Point C i Gymru. Dywedodd Richard Bramhall o'r Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel: “Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld gwaith y pwylgor a gadeirir gan Dr Jane Davidson. Gobeithiwn weld proses dryloyw gyda chyfarfodydd agored a chofnodion ac adroddiadau ar gael yn hwylus. Gwelwn angen am



Asgwrn y gynnen yw'r fethodoleg ar gyfer profi lefelau ymbelydredd y llaid, ac effeithiau ei ddympio ger y lan yn y Cardiff Grounds.

y cyfarwyddyd ehangaf i ystyried yr holl faterion, cyfethol arbenigwyr eraill yn ôl yr angen, a sicrhau y cynrychiolir grwpiau buddiannau cymunedol.” Disgwyliwn hefyd am benderfyniad CNC parthed a oes angen i EdF gynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer eu cynllun ai peidio.

Covid-19 a chostau niwclear

Parhaodd y gwaith adeiladu yn Hinkley Point C trwy'r pandemig coronafirws, er i weithwyr leisio pryderon am fesurau ymbellhau cymdeithasol, ac i luniau ddod i'r amlwg yn dangos ffreturau gorlawn. Mae EdF yn honni y bydd Hinkley Point C yn weithredol yn 2025, naw mlynedd ar ôl i'r gwaith adeiladu gychwyn, ond mae'r rhan fwyaf o arsylwyr yn credu ei fod eisoes 18 mis ar ei hôl hi; credir bod y gost wedi cynyddu i £23 biliwn. Ar hyn o bryd mae EdF oddeutu 44 biliwn ewro mewn dyled i lywodraeth Ffrainc; mae ei holl broiectau adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear cyfredol ar ei hôl hi a thros eu cyllideb, mae angen gwaith uwchraddio drud ar lawer o'u gorsafoedd pŵer niwclear Ffrengig, ac maent yn dechrau wynebu costau datgomiysu. Pwy fyddai am fuddsoddi?

heddweithredu:

Sgrifennwch at eich AS am laid Hinkley ac arwyddo'r ddeiseb i'r Senedd yn ceisio Asesiad Effaith Amgylcheddol:

<https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/200157>

Gweler hefyd: www.change.org/geigerbay2020

CYMRU DAN GLO WALES IN LOCKDOWNY PANDEMIG
BYD-EANG

Wrth i'r rhifyn diwethaf o *Heddwch* fynd i'r wasg, dechreuodd negesau yn canslo digwyddiadau gwanwyn a haf oherwydd pandemig y Coronavirus lifo i mewn. Yn hwyr yn y dydd sylweddolodd llywodraeth y DU i ba raddau y byddai'n rhaid cau'r calendr i lawr ... ac felly dechreuodd misoedd o bryder, trasiedi, unigedd, hunan-berth, cymeradwyo'r GIG, cyfeillgarwch a chydweithrediad.

Ein hatgoffa i gynllunio rhag ofn

Mae'r methiannau mewn cynllunio ar gyfer y drychineb hon yn rhybudd llym o'r hyn a allai ddigwydd pe ceid rhyfel niwclear, damwain gyda chludo deunydd niwclear, neu argyfwng mewn gorsaf bŵer niwclear. Allwn ni ddim dweud, 'O, gallai hynny byth ddigwydd' – mae eisoes wedi gwneud.

Geifr gwleidyddol Llandudno

A ninnau dan glo, gadawyd strydoedd dinesig yn wag, fel setiau ffilm ddystopaidd. Gorymdeithiai par o beunod ar hyd Stryd Fawr wag Bangor. Cefnodd geifr Kashmir hir-gorn ar borfeydd gwyrdd y Gogarth

a dod lawr i chwilota o amgylch strydoedd dinod a gerddi deiliog Llandudno. Daethant yn sêr y cyfryngau dros nos, a hyd yn oed cael eu mabwysiadu gan y cartwnydd gwleidyddol Steve Bell, i ymuno â'r bwystfilod dychanol eraill yn ei sribed cartwn *If ...*, yn y *Guardian*.

Cwrdd – a chanu – ar-lein


Cadwodd pwyllgor CND Cymru mewn cysylltiad trwy alwadau cynhadledd neu Zoom, a chadwodd grwpiau heddwch lleol fel rhwydwaith Sir Gonwy mewn cysylltiad electronig hefyd. Llwyddodd Côr Gobaith

Aberystwyth i ddal ati i ganu trwy rannu ar-lein, ac i gynnwys yr aelodau Lotte Reimer a Kelvin Mason a oedd dan glo yn Nenmarc. Bu grŵp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn ar Skype yn wythnosol, a llwyddon nhw hefyd i gadw mewn cysylltiad â'u haelod Nick Jewitt, ac yntau dan glo yn Uganda.

Trefnodd sefydliadau mwy fel Atal y Rhyfel, Gwrthryfel Difodiant a Chynulliadau'r Bobl seminarau gwe, rhith-weithdai, sgysrsiau, trafodaethau a pherfformiadau.

Rheolau newydd protestio

Ar 25 Mai ysgogodd marwolaeth George Floyd yn nwylo'r heddlu ym Minneapolis brotestiadau enfawr yn erbyn hiliaeth ar draws UDA a'r byd. Yng Nghymru, daeth torfeydd allan i brotestio yn ystod yr wythnosau canlynol, gan gadw'n lleol. Fel rheol, llwyddwyd i gadw mesur derbyniol o bellter ▶



Golygai protestio yn 2020 gadw'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gorchudd wyneb, glanweithydd dwylo, menig ac ymbellhau cymdeithasol oedd y drefn newydd.

CYMRU DAN GLO WALES IN LOCKDOWN

◀ cymdeithasol. Roedd ymledu'r torfeydd fel hyn nid yn unig yn fwy diogel, ond yn aml yn gwneud argraff weledol drawiadol.

Cafwyd protestiadau **Mae Bywydau Du yn Cyfrif** yng Nghaerdydd, Abertawe, Caerffili, Caerfyrddin, Aberystwyth, Wrecsam, Dinbych, Bangor a Chaernarfon. Fis Gorffennaf, ffrwydrodd cyfres arall o brotestiadau gydag ymbellhau cymdeithasol yn erbyn cynllun Trump i draflyncu tir Palestinaidd yn anghyfreithlon.

Cerfluniau, arwyr a dihirod
Wedi i brotest ym Mryste

arwain at luchio cerflun o'r caethfasnachwr Edward Colston i'r harbwr, dechreuodd Cymru ailystyried y rôl a chwaraewyd yn ei hanes gan bobl o'r gorffennol imperialaidd a masnachol a anrhydeddwyd yn gyhoeddus, fel Robert Clive, Thomas Picton, Richard Pennant ac HM Stanley. Ehangodd y ddadl yn fuan, i ystyried sut mae Prydain fodern yn dal heb ddod i delerau â'i hetifeddiaeth ymerodrol. Un cerflun o Gymru sy'n haeddu parch yn ein hoes ni yw eiddo Henry Richard AS, a aned yn Nhregaron ym 1812. Roedd Richard, a adwaenid fel 'Apostol Heddwch', yn ymgyrchydd gwrth-gaethwasiaeth, yn

weinidog gyda'r Annibynwyr, yn arloeswr mewn rhyngwladoldeb ac yn Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch.

Gohirio gwyliau

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol, a oedd i'w chynnal yn Nhregaron ym mis Awst, wedi'i gohirio tan y flwyddyn nesaf, wrth gwrw, fel Eisteddfod yr Urdd eleni ac Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen. Gellir gweld gweithgareddau eisteddfodol amgen ar-lein trwy AmGen yn <https://eisteddfod.cymru/amgen> neu <https://eisteddfod.wales/amgen>

Wrth i ni fynd i'r wasg, mae CND Cymru yn gweithio ar gyflwyniad Dydd Hiroshima ar Awst 6ed. Gwylwch Facebook CND Cymru a hysbysiadau gwefan am fanylion sydd ar fin dod. Mae coffáu Hiroshima wedi bod yn rhan gofiadwy o'r Eisteddfod Genedlaethol dros nifer o flynyddoedd.

Diolch i weithwyr allweddol

Mae ymdrech anhygoel meddygon, nyrsys, gofawyr a gweithwyr allweddol eraill ledled Cymru wedi bod yn ysbrydoliaeth, ynghyd â lluo o gymwynasau ac ymddygiad cymdogol. Wrth i ni fynd i'r wasg, mae rheolau'n cael eu llacio'n ofalus – ond dyw hyn ddim drosodd eto.

CADWCH YN SAFF!

Azz Lennox



Castell Conwy wedi ei oleuo â lliwiau'r enfys fel teyrnged i weithwyr y GIG a gofawyr.

CYMRU A'R BOM**Wales and the Bomb: The Role of Welsh Scientists and Engineers in the British Nuclear Programme (cyfres Scientists of Wales)**

gan John Baylis

Gwasg Prifysgol Cymru 2019

ISBN 978-1-78683-359-4

£16.55 (Kindle £12.38)

Do wir, fe chwaraeodd Cymru a'r Cymry ran sylweddol yn hanes arfau niwclear. Mae *Wales and the Bomb* yn cofnodi cyfraniad gwyddonwyr a pheirianwyr o Gymru i raglen niwclear Prydain. O gyfnod olaf yr Ail Ryfel Byd tan heddiw, roedd gwyddonwyr a pheirianwyr o Gymru, a fu'n gweithio'n ddiweddarach yn Lloegr yn Sefydliad Ymchwil Ynni Atomig Harwell a Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston, yn ganolog i ddatblygiad arf niwclear cyntaf Prydain, y gwnaed profion arno yn Monte Bello ym 1952. Buont

hefyd yn rhan o weithgorau a sefydlodd Gytundeb Amddiffyn Cydpuddiannol 1958 (MDA) a chyfrannu at ddatblygu adweithydd niwclear cyntaf Ewrop.

Pobl a llefydd

Yn ei ymchwiliad i gyfraniadau academiaidd "trawiadol" y 43 Cymro (a dwy Gymraes) a restrir i ddatblygu arfau niwclear, mae John Baylis yn amyneilio penodau o ddisgrifiadau o esblygiad systemau arfau niwclear Prydain, credoau personau gwleidyddol, milwrol a gwyddonol, cytundebau ac ymchwiliadau, gyda manylion gyrfaoedd y Cymry unigol a gyfrannodd. Mae sawl gwyddonydd o Gymru yn gweithio yn AWE Aldermaston heddiw. Gwnaethpwyd ymchwil i dechnoleg arfau niwclear mewn amryw o brifysgolion yng Nghymru. Cyfranogodd Gwaith Dyffryn Rhydymwyn ger yr Wyddgrug a Gwaith Nicel Mond yng Nghlydach hefyd mewn arbrofion cynnar yn gysylltiedig ag arfau niwclear.

Pam cymaint o Gymru?


Mae Baylis yn archwilio'r rhesymau pam roedd y diwydiant arfau niwclear mor ddeniadol i gynifer o Gymry o gefndir dosbarth gweithiol. Ymddengys bod gan ddisgyblaethau gwyddoniaeth a pheirianeg wreiddiau hanesyddol cryf yma, tra bod hyd yn oed "arweinwyr Methodistiaeth Gymreig wedi llenwi eu hemynau â

chyfeiriadau gwyddonol"! Roedd diwylliant Cymru o werthfawrogi addysg yn ysgogi uchelgais. Roedd gan brifysgolion Cymru enw academiaidd da ac anogai Harwell ac Aldermaston eu penaethiaid i gyflogi graddedigion o'u hen golegau. Gallai gweithwyr o Gymru yn y sefydliadau hyn elwa ar gysylltiadau trafnidiaeth da â'u mamwlad a chyflogau ac amodau gwaith rhagorol. Mae'n debyg bod y dechnoleg newydd mor gyffrous fel mai ychydig a oeddodd i ystyried oblygiadau moesol arfau niwclear.

A oedd gwerth i'w gwaith?

Mae *Wales and the Bomb* yn hyrwyddo'r hanner-gwirionedd hanesyddol anllythrennog bod "y bom" wedi atal rhyfel er 1945. Fel darlennydd *Heddwch* mae'n debyg y gwyddoch eich safbwynt ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae'r llyfr yn dal i fod yn grynodeb dwys, crefftus, gwrthrychol ac eang ei gyfeiriadaeth o ddatblygiad cynnar Rhaglen Niwclear Prydain. Prin y caiff dim o'n gwaith ymgyrchu ninnau yn erbyn y bom unrhyw sylw, ac eithrio amnaid i gyfeiriad taith gerdded Menywod dros Fywyd ar y Ddaear ym 1981 i Gomin Greenham i brotestio yn erbyn arfau niwclear yr UD. Fodd bynnag, da o beth ein hatgoffa nad yw'r Gymru a amlygir yn y gyfrol hon yn wlad unfrydol heddgarol – mae realiti yn fwy cymhleth na hynny.

Jill Gough



Ifanwy Williams

1922-2020

Ifanwy oedd hi i bawb ac i'r rhai ohonom sydd wedi mynychu raliau a chyfarfodydd heddwch tros y blynyddoedd, Ifanwy oedd yr un dalsyth, osgeidig, oedd bob amser â gwên ar ei hwyneb.



I goroni pob dim, etholwyd Ifanwy yn gadeirydd ar Gymdeithas y Cymod Dwyrdd a Glaslyn; bu'n arwain gweithgaredd lleol am ddeg mlynedd a hi a enwodd awyrennau di-beilot milwrol yn 'Adar Angau'.

Roedd hi'n un o sefydlwyr 'Heddwch Nain/Mam-

Roedd ei hargyhoeddiadau heddwch yn mynd yn ôl i Lerpwl lle magwyd hi. Mae'n cofio nad oedd ei brodyr yn cael perthyn i'r Sgowntiaid am ei fod yn fudiad rhy filitaraidd. Doedd 'na ddim chwarae gynnu chwaith fel plant yn y cartref.

Cafodd Ifanwy, yn ferch ysgol yn ei harddegau, ei hanfon i Ddinbych ac wedyn Dinmael i osgoi bomiau'r Rhyfel. Ymunodd â chymdeithas leol oedd yn bleidiol dros Gymru, sosiaeth a heddwch.

Ymunodd tri o'i brodyr ac un chwaer â'r Lluoedd Arfog. Ond o'r cychwyn roedd Glyn, brawd arall, ac Ifanwy yn wrthwynebwyr cydwybodol.

Yn 1949, priododd y Parchedig DJ Williams a symud i Abertawe. Mae'n cofio yn y 50egau cynnar gwthio'i phram, a Nonn ei merch ynddi. Roedd hi'n rhan o griw o Grynwyr ar strydoedd Abertawe mewn gwrthdystiad gwrth-niwclear.

Symudodd Ifanwy i'r gogledd i Gaernarfon ac wedyn i Borthmadog. A dyna gyfnod radical arall gyda chyfarfodydd i gymodi Cymry a Saeson oedd wedi symud i'r ardal i fyw. Yn yr ardal hon, mi roedd hi'n aelod gweithgar o CADNO, grŵp sy'n cadw llygad ar Orsaf Niwclear Trawsfynydd.

gu', ymgyrch i ddatlu Deiseb Heddwch a arwyddodd 390,296 o fenywod Cymru ym 1923, yn galw am fyd di-ryfel. Dyma gyfle i'w chlywed hi'n siarad am y ddeiseb : <https://youtu.be/6hfp-ZhJNAE>

Awel Irene

CERDD

AIL-DDECHRAU'R BYD

Mae'r cof, fel pridd, yn dal holl olion ddoe, a'r geiriau hen heb fynd ar goll yn llwyr, fe ddôn nhw 'nôl 'mond oedi, cymryd hoe i hidlo llwch llythrennau gwynt yr hwyr; daw eto wich yr iet ar ffald Llwyn Onn, a chlecian drws Gwybedog a Chefn Gwyn, fel sibwrdd enwau Wncwl Defi John, Taitusi Ratucaucau a Hedd Wyn; ac er i'r 'drefen' racso teulu'r tir a gwthio'r meirw i fedd heb faen nac arch, gall clust y cof ddal eto leisau'r gwir a gwrando ar eu hanes, dangos parch. Ac wedi'r gwrando?... Gellid dod ynghyd i agor fory gwell: ail-ddechrau'r byd.

Mererid Hopwood

1918: Lladdwyd fy Wncwl Defi John yn y Rhyfel Mawr

1940: Geiriau un o drigolion yr Epynt, wrth i'r fyddin nesau i feddiannu'r mynydd oedd: 'Mae'n ddiwedd byd yma'. Rhai o aelwydydd eraill yr Epynt oedd Llwyn Onn, Gwybedog a Chefn Gwyn. Roedd 54 i gyd.

2020: Gwrthododd gwladwriaeth Prydain dalu am ofal iechyd y cyn-filwr Taitusi Ratucaucau eleni. Roedd d'n ddigon da i ymladd dros y wladwriaeth yn Irac, ond ag yntau'n enedigol o Fiji, dyw e ddim yn ddigon da i gael gofal y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
gwpeilyfr: cndcymru
Cadeirydd: Jill Evans

CYSYLLTIADAU:

Brian Jones
01792 830 330
brian.jones@phonecoop.coop

Duncan Rees
07534 975 461
Duncan.rees01@gmail.com

Philip Steele
01248 490 715
phil_steele@btinternet.com

John Cox
01495 773 495
drjohncox121@gmail.com

Trysorydd, Aelodau ac Aelodaeth Grwp:

Michael Freeman,
CND Cymru,
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

Ysgrifenydd Cenedlaethol:

d/o Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188



HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
Ymgyrch Ddiarfog
Niwclear yng Nghymru
(CND Cymru)

Golygydd:
Philip Steele
phil_steele@btinternet.com

Cyfieithydd:
Siân Edwards
sian@siandefynnog.cymru
Cynhyrchu a phostio:
Redkite Print
jon@thefreeflyer.com

Nid yw cynnwys
HEDDWCH o
anghenraid yn
adlewyrchu barn neu
bolisiau C N D Cymru.
Rydym yn croesawu
dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw
sylwadau, cyfraniadau
neu ddyddiadau am
ddigwyddiadau at y
golygydd.

Bydd y rhifyn
nesaf o **HEDDWCH**
yn ymddangos ar
ddiwedd 2020.

